Asiantaeth Safonau Bwyd
food.gov.uk

Government Statistical Service

Tracio Agweddau'r Cyhoedd

Cylch 19

Tachwedd 2019

(Cyhoeddwyd mis Chwefror 2020)

Cynnwys

Crynodeb ... 3
Cyflwyniad ... 3
Ystadegau Swyddogol ... 4
1 Pryder am faterion bwyd ... 7
1.1 Pryder cyffredinol ... 7
1.2 Materion diogelwch bwyd ... 8
1.3 Materion bwyd ehangach ... 10
1.4 Diogelwch bwyd mewn safleoedd bwyd ... 12
2 Ymwybyddiaeth o safonau hylendid bwyd ... 13
3 Clefydau a gludir gan fwyd ... 15
3.1 Ymwybyddiaeth o fathau o wenwyn bwyd ... 15
3.2 Ffynonellau gwenwyn bwyd ... 16
3.3 Osgoi gwenwyn bwyd ... 17
4 Alergenau ... 18
4.1 Ymwybyddiaeth o reolau ... 18
4.2 Nifer yr alergeddau ac anoddefiadau ... 18
4.3 Gofyn am wybodaeth am alergenau ... 18
5 Agweddau tuag at yr ASB ... 20
5.1 Pa mor ymwybodol a chyfarwydd yw ymatebwyr ... 20
5.2 Canfyddiadau ynghylch yr ASB ... 23
5.3 Ymddiried yn yr ASB ... 24
6 Agweddau tuag at y system fwyd ... 27
6.1 Dewisiadau bwyd ... 27
6.2 Ymddiried mewn labeli bwyd ... 29
6.3 Ymddiriedaeth yn y system fwyd ... 30
7 galw BWYD yn ôl ... 32
Atodiad A: Tabl o ffigurau a thablau ... 33
Atodiad B: Methodoleg ... 34
Atodiad C: Holiadur Cylch 19 ... 36

Crynodeb

Cyflwyniad

Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno canfyddiadau Cylch 19 yr Arolwg Tracio Agweddau’r Cyhoedd a gynhelir bob dwywaith y flwyddyn.

Mae Arolwg Tracio Agweddau’r Cyhoedd yn ffynhonnell dystiolaeth gadarn ar agweddau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd. Mae'r arolwg wedi’i gynnal dwywaith y flwyddyn er 2010.

Mae'r canfyddiadau hyn yn seiliedig ar 2,101 o gyfweliadau gan sampl gynrychioliadol o oedolion 16 oed a hŷn ledled Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Cynhaliwyd y gwaith maes rhwng 4 a 29 Tachwedd 2019, fel rhan o arolwg omnibws wyneb yn wyneb rheolaidd TNS Kantar[1].

Mae cwestiynau'n ymdrin â sawl pwnc sydd o ddiddordeb i'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) gan gynnwys pryder am faterion diogelwch bwyd, ymwybyddiaeth o safonau hylendid bwyd, ymwybyddiaeth o'r ASB a'i chyfrifoldebau, ymddiriedaeth yn yr ASB a'r diwydiant bwyd, a hyder mewn labelu bwyd. Yng nghylch 18, ychwanegwyd set newydd o gwestiynau i fonitro ymddiriedaeth yn yr ASB a'r system fwyd ehangach.

Dim ond gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol ar y lefel 5% a adroddir. Nid oes gan y gwahaniaethau sydd mor fawr â'r rheiny a nodwyd debygolrwydd o fwy na 5% o ddigwydd ar hap.

Mae'r canrannau'n seiliedig ar yr holl ymatebwyr, oni nodir yn wahanol. Oherwydd talgrynnu, efallai nad yw rhai canrannau rhesi neu golofnau'n dod at 100% yn union. Ar gyfer cwestiynau lle gallai ymatebwyr roi mwy nag un ymateb, bydd y canrannau'n adio i fwy na 100%.

Mae'r data a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad wedi'i bwysoli i gyd-fynd â phoblogaeth Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon. Gwnaethom bwysoli i gywiro achosion o ddiffyg ymateb a nodweddion eraill y dull samplu.

[1] http://www.tnsglobal.com/

Ystadegau Swyddogol

Mae Pennaeth Ystadegau yr ASB, Clifton Gay, wedi cymeradwyo bod yr ystadegau a gyflwynir yn yr adroddiad hwn yn bodloni gofynion Cod Ymarfer y Deyrnas Unedig (DU) ar gyfer Ystadegau Swyddogol.

Mae rhagor o wybodaeth a chanllawiau am Ystadegau Swyddogol ar gael ar wefan Awdurdod Ystadegau'r DU[2].

[2] http://www.statisticsauthority.gov.uk/assessment/code-of-practice/index.html

Prif ganfyddiadau Cylch 19

Materion bwyd sy'n peri pryder

Y prif faterion diogelwch bwyd a oedd yn peri pryder oedd:

1. Cemegion o'r amgylchedd, fel plwm, mewn bwyd (32%)
2. Hylendid bwyd wrth fwyta allan (31%)
3. Y defnydd o blaladdwyr i dyfu bwyd (31%)
4. Gwenwyn bwyd (28%)

Y prif faterion bwyd ehangach a oedd yn peri pryder oedd:

1. Gwastraff bwyd (57%)
2. Faint o siwgr sydd mewn bwyd (53%)
3. Lles anifeiliaid (50%)
4. Prisiau bwyd (44%)
5. Faint o halen sydd mewn bwyd (42%)

Gwenwyn bwyd

Salmonela ac E. Coli oedd y mathau o wenwyn bwyd a oedd fwyaf adnabyddus (92% ac 86% yn y drefn honno), ac yna Listeria (61%) a Norofeirws (60%).

Roedd 81% o'r ymatebwyr o'r farn y byddant fwyaf tebygol o gael gwenwyn bwyd o gyw iâr a thwrci amrwd, ac yna bysgod cregyn (57%) a bwyd tecawê wedi'i ailgynhesu (50%).

Agweddau tuag at y System Fwyd

- **80%** naill ai bob amser yn hyderus neu'n hyderus y rhan fwyaf o'r amser fod bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label
- **65%** wedi dweud eu bod yn credu bod y system fwyd yn cael ei rheoleiddio'n deg
- **83%** wedi adrodd bod ganddyn nhw ddigon o wybodaeth am yr hyn sydd mewn bwyd i wneud eu dewisiadau bwyd
- **62%** wedi cytuno bod yr awdurdodau i bob pwrpas yn canfod ac yn atal twyll bwyd
- **61%** wedi cytuno bod y bobl sy'n cynhyrchu ac yn cyflenwi bwyd yn sicrhau ei fod yn ddiogel, yn onest ac wedi'i gymeradwyo'n foesegol.

Alergenau

12% o ymatebwyr wedi nodi bod ganddynt alergedd bwyd a/neu anoddefiad bwyd.

Pan ofynnwyd iddynt am ymwybyddiaeth o reolau alergenau, nododd 8% fod yn rhaid arddangos alergenau ar fwydlenni/labeli

Ymwybyddiaeth ac ymddiriedaeth yn yr ASB

78% o ymatebwyr wedi clywed am yr ASB (83% yng Nghymru, 77% yn Lloegr ac 84% yng Ngogledd Iwerddon).

O'r rhai sy'n ymwybodol o'r ASB, nododd 67% eu bod yn gwybod rhywfaint, neu lawer o wybodaeth am yr ASB

Roedd 73% o'r rhai a oedd yn ymwybodol o'r ASB yn ymddiried ynddi i gyflawni ei swyddogaeth

Mae hyn wedi cynyddu 7 pwynt canran ers y cylch blaenorol.

Sgôr gyfartalog mesur cyfansawdd newydd o ymddiriedaeth yn yr ASB oedd **7 allan o 10**.

1 Pryder Am Faterion Bwyd

1.1 Pryder cyffredinol

Yn nghylch 19, nododd 86% o ymatebwyr bryder ynghylch o leiaf un mater bwyd. Mae hwn yn gynnydd sylweddol o'i gymharu â chylch 18 (84%), ond yn debyg i gylchoedd cynharach.

Ffigur 1-1 Cyfanswm lefel y pryder ar gyfer pob mater bwyd dros amser



1.2 Materion diogelwch bwyd

Er mwyn helpu'r ASB i fonitro canfyddiadau cyhoeddus o faterion diogelwch bwyd, gofynnir yn gyntaf i ymatebwyr nodi'n ddigymell ba faterion bwyd maent yn pryderu amdanynt[3], ac yna gofynnir iddynt ddewis materion bwyd sy'n peri pryder o restrau o faterion posibl[4].

Yng Nghylch 19, y materion o bryder a nodwyd amlaf yn ymwneud â diogelwch bwyd oedd cemegion o'r amgylchedd mewn bwyd (32%), hylendid bwyd wrth fwyta allan (31%) a'r defnydd o blaladdwyr i dyfu bwyd (31%).

Tabl 1-1 Materion diogelwch bwyd sy'n peri pryder (cyfanswm pryder) [5]

Mater bwyd	Cylch 19 (Tachwedd 19)
Cemegion o'r amgylchedd, fel plwm, mewn bwyd	32%
Hylendid bwyd wrth fwyta allan	31%
Y defnydd o blaladdwyr i dyfu bwyd	31%
Gwenwyn bwyd fel Salmonela ac E.Coli	28%
Defnyddio ychwanegion (fel cyffeithyddion a sylweddau lliwio) mewn bwyd	28%
Hormonau, steroidau, gwrthfiotigau mewn bwyd	27%
Bwyd a addaswyd yn enetig (bwyd GM)	25%
Bwyd ddim yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label	21%
Labeli dyddiad, fel labeli "ar ei orau cyn" a "defnyddio erbyn"	21%
Sut mae cig yn cael ei gynhyrchu yn y DU	21%
Ymbelydredd mewn bwyd	19%
Y bwyd anifeiliaid a roddir i dda byw	18%
Argaeledd gwybodaeth am alergenau bwyd	16%
Hylendid bwyd gartref	16%
Enseffalophathi Sbyngffurf buchol [BSE] ('clefyd gwartheg gwallgof')	12%

Mae pryder ynghylch argaeledd gwybodaeth am alergenau bwyd wedi cynyddu ers y cylch blaenorol (13 pwynt canran). Mae'r graff isod yn cynrychioli newidiadau dros amser ar gyfer y pum mater diogelwch bwyd uchaf sy'n peri pryder.

[3] C1a. Pa faterion, os o gwbl, ydych chi'n poeni amdanynt? Pa rai eraill?
[4] C1b. A pha rai o'r materion bwyd hyn ydych chi'n poeni amdanynt, os o gwbl? Dewiswch bob un sy'n berthnasol
[5] Trwy'r adroddiad hwn, mae 'cyfanswm' pryder yn cyfeirio at ymatebion cyfunol 'digymell' ac 'wedi'u cymell'

Ffigur 1-2 Materion diogelwch bwyd sy'n peri pryder (dros amser)



1.3 Materion bwyd ehangach

Er mwyn deall cyd-destun ehangach materion bwyd sy'n peri pryder, cafodd ymatebwyr eu hannog i ystyried eu pryder am nifer o bynciau[6].

Yng Nghylch 19, roedd ymatebwyr yn pryderu fwyaf am wastraff bwyd (57%), faint o siwgr sydd mewn bwyd (53%), lles anifeiliaid (50%), a phrisiau bwyd (44%).

Tabl 1-2 Materion bwyd ehangach sy'n peri pryder

Mater bwyd	Cylch 19 (Tachwedd 19)
Gwastraff bwyd	57%
Faint o siwgr sydd mewn bwyd	53%
Lles anifeiliaid	50%
Prisiau bwyd	44%
Faint o halen sydd mewn bwyd	42%
Faint o fraster sydd mewn bwyd	36%
Faint o fraster dirlawn sydd mewn bwyd	34%
Bwydydd wedi'u hanelu at blant gan gynnwys prydau ysgol	28%
Milltiroedd bwyd	27%

Hyd at Gylch 18, roedd pryder ynghylch y rhan fwyaf o faterion yn parhau i fod yn berthnasol sefydlog gyda thueddiadau'n dangos gostyngiad graddol mewn pryder. Fodd bynnag, rhwng Cylch 18 a 19 bu cynnydd sydyn mewn pryderon gyda bron pob maes yn dangos tuedd gynyddol. Cynyddodd y pryder am wastraff bwyd chwe phwynt canran yn ystod y cyfnod hwn, tra bod pryder ynghylch faint o siwgr sydd mewn bwyd wedi codi pedwar pwynt canran, a chynyddodd pryder ynghylch materion lles anifeiliaid saith pwynt canran. Mae'r siart isod yn dangos pryder dros amser am y pedwar prif fater yng nghylch 19.

[6] C1c. A pha rai o'r materion bwyd hyn ydych chi'n poeni amdanynt, os o gwbl? Dewiswch bob un sy'n berthnasol / C1d. Ac, yn olaf yn yr adran hon, pa rai o'r materion bwyd hyn rydych chi'n pryderu amdanynt, os o gwbl? Dewiswch bob un sy'n berthnasol

Ffigur 1-3 Materion bwyd ehangach sy'n peri pryder (dros amser)



1.4 Diogelwch bwyd mewn safleoedd bwyd

Yng nghylch 19, roedd 45% o'r ymatebwyr yn pryderu am ddiogelwch bwyd mewn bwytai, tafarndai, caffis a siopau tecawê[7] yn y DU a nododd 40% ohonynt bryder am ddiogelwch bwyd yn siopau ac archfarchnadoedd y DU[8].

Mae'r lefelau pryder wedi parhau i ostwng ychydig dros amser, gan nodi gostyngiad cyffredinol mewn pryder ynghylch diogelwch bwyd ym musnesau bwyd y DU.

Ffigur 1-4 Pryder am ddiogelwch bwyd mewn busnesau bwyd yn y DU (dros amser)



[7] C2a. I ba raddau ydych chi'n pryderu neu ddim am ddiogelwch yr holl fwyd a werthir mewn bwytai, tafarndai, caffis a siopau tecawê yn y DU?

[8] C2b. I ba raddau ydych chi'n pryderu neu ddim am ddiogelwch yr HOLL fwyd a werthir mewn siopau ac archfarchnadoedd yn y DU?

2 Ymwybyddiaeth O Safonau Hylendid Bwyd

Un o amcanion strategol yr ASB yw sicrhau bod gan ddefnyddwyr yr wybodaeth a'r ddealltwriaeth i wneud dewisiadau gwybodus wrth ddewis ble a beth i'w fwyta.

Er mwyn helpu i fonitro perfformiad yn erbyn yr amcan hwn, gofynnwyd i ymatebwyr pa mor ymwybodol oeddent o safonau hylendid wrth brynu bwyd neu fwyta allan.

Yng nghylch 19, nododd 50% o ymatebwyr eu bod bob amser yn ymwybodol o'r safonau hylendid mewn lleoedd y maent yn bwyta allan neu'n prynu bwyd ohonynt, a dywedodd 34% arall eu bod weithiau'n ymwybodol[9].

Yna gofynnwyd i'r ymatebwyr a nododd eu bod yn ymwybodol o safonau hylendid yn y lleoedd y maent yn bwyta allan neu'n prynu bwyd ohonynt sut maent yn gwybod am safonau hylendid[10]. Y ffyrdd a grybwyllwyd amlaf gan yr ymatebwyr a nododd eu bod yn ymwybodol o safonau hylendid oedd trwy sticeri/tystysgrifau hylendid (64%) a golwg cyffredinol y safle (60%).

Tabl 2-1 Ffyrdd o wybod am safonau hylendid bwyd

Ffyrdd o wybod am safonau hylendid bwyd	Cylch 19 (Tachwedd 2019)
Sticeri a thystysgrifau hylendid yn cael eu harddangos yn y safle	64%
Golwg Cyffredinol y Safle	60%
Golwg y staff sy'n gweithio yno	42%
Enw da	37%
Ar lafar	34%
Gwefannau	17%

[9] C3. Pan fyddwch chi'n prynu bwyd mewn siopau neu archfarchnadoedd, neu'n bwyta mewn bwytai, caffis, tafarndai a siopau tecawê, a ydych chi'n tueddu i fod yn ymwybodol o safonau hylendid y lleoedd hyn?
[10] C3b. Sut ydych chi'n gwybod am safonau hylendid y lleoedd rydych chi'n prynu bwyd ohonynt neu'n bwyta allan ynddynt? Dewiswch bob un sy'n berthnasol Sut arall?

Mae defnyddio sticeri hylendid wedi parhau'n weddol gyson o fewn ystod rhwng 60% a 66% ar draws y cylchoedd.

Ffigur 2-1 Y defnydd o sticeri hylendid



3 Clefydau A Gludir Gan Fwyd

3.1 Ymwybyddiaeth o fathau o wenwyn bwyd

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa fathau o wenwyn bwyd yr oeddent yn ymwybodol ohonynt[11]. Salmonela (92%) ac E-coli (86%) oedd y mathau mwyaf adnabyddus o wenwyn bwyd. Mae ymwybyddiaeth o norofeirws wedi'i chryfhau ers Cylch 18 (59%) ac mae wedi cynyddu o ddeg pwynt canran ers Cylch 17 – Tachwedd 2018 (o 50% i 60%). Mae ymwybyddiaeth o listeria wedi parhau i gynyddu dros y ddwy flynedd ddiwethaf (o 51% i 61%).

Ffigur 3-1 Ymwybyddiaeth o'r mathau o wenwyn bwyd



[11] C8Aii A pha un o'r mathau canlynol o wenwyn bwyd ydych chi wedi clywed amdanynt, os o gwbl?

3.2 Ffynonellau gwenwyn bwyd

Er mwyn deall ymwybyddiaeth o wenwyn bwyd, gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi pa fwydydd allai, yn eu barn nhw, fod yn ffynonellau o wenwyn bwyd.

Dywedodd 81% o'r ymatebwyr eu bod fwyaf tebygol o gael gwenwyn bwyd o gyw iâr neu dwrci amrwd[12]. Dywedodd 57% fod pysgod cregyn yn ffynhonnell bosibl o wenwyn bwyd a nododd 50% fwyd tecawê wedi'i ailgynhesu fel ffynhonnell. Roedd ffynonellau eraill posibl yn cynnwys wyau (42%), llysiau neu salad heb eu golchi (34%), cigoedd wedi'u sleisio a'u coginio (26%) a brechdanau wedi'u paratoi ymlaen llaw[13] (28%). Nododd 18% o'r ymatebwyr fod bara a llysiau wedi'u rhewi yn ffynhonnell bosibl o wenwyn bwyd[14].

Mae ymwybyddiaeth o ffynonellau gwenwyn bwyd wedi aros yn sefydlog ar draws y cylchoedd blaenorol, heb fawr o newid rhwng bob cylch. Dywedodd mwyafrif yr ymatebwyr (93%) nad oes unrhyw un ar eu haelwyd yn yfed llaeth amrwd, gyda 7% yn nodi bod rhywun ar yr aelwyd yn ei yfed[15]. Dywedodd 4% o'r ymatebwyr eu bod yn yfed llaeth amrwd eu hunain, a nododd 1% fod plant ar yr aelwyd yn ei yfed.

[12] C8B Yn y DU, o ba un o'r bwydydd canlynol ydych chi'n credu eich bod FWYAF TEBYGOL o gael gwenwyn bwyd?
[13] Gellir gweld rhestr lawn o'r canlyniadau yn y tablau data cyhoeddedig ar food.gov.uk.
[14] C8Bi Yn y DU, o ba un o'r bwydydd canlynol ydych chi'n credu y gallwch chi gael gwenwyn bwyd?
[15] C.8e A oes unrhyw un ar eich aelwyd yn yfed llaeth amrwd? O ran llaeth amrwd rwy'n cyfeirio at laeth heb ei basteureiddio.

3.3 Osgoi gwenwyn bwyd

Nododd mwyafrif yr ymatebwyr (79%) y byddai coginio bwyd yn drylwyr yn eu helpu i osgoi gwenwyn bwyd[16] a nododd bron dwy ran o dair o'r ymatebwyr (66%) y byddai paratoi gwahanol fathau o fwyd ar wahanol arwynebau/byrddau torri yn eu helpu i osgoi gwenwyn bwyd.

Tabl 3-1 Gweithgareddau canfyddedig i osgoi gwenwyn bwyd

Osgoi gwenwyn bwyd	Cylch 19 - Tachwedd 2019
Coginio bwyd yn drylwyr	79%
Paratoi gwahanol fathau o fwyd ar wahanol fyrddau torri	66%
Golchi ffrwythau a llysiau ffres yn drylwyr	64%
Dilyn cyfarwyddiadau storio ar labeli bwyd	61%
Bwyta bwyd erbyn y dyddiad 'defnyddio erbyn'	60%
Storio bwyd ar 5 gradd celsius neu is	59%
Osgoi ail-gynhesu bwyd	57%
Cynhesu bwyd dros ben nes ei fod yn stemio'n boeth	54%
Bwyta bwyd erbyn y dyddiad 'ar ei orau cyn'	52%
Dilyn cyfarwyddiadau wrth ddefnyddio ffrwythau neu lysiau wedi'u rhewi	51%
Peidio â golchi cyw iâr amrwd	51%

Ychwanegwyd cwestiynau newydd yng nghylch 17 i ddeall ymddygiadau pobl wrth baratoi ffrwythau a llysiau wedi'u rhewi. Dywedodd 50% o'r ymatebwyr nad oeddent bob amser yn dilyn cyfarwyddiadau ar ddeunydd pecynnu llysiau wedi'u rhewi[17]a nododd 27% eu bod yn gwneud hynny'n anaml neu byth (dewisodd 16% y dewis 'ddim yn berthnasol'). Wrth baratoi ffrwythau wedi'u rhewi[18], nododd 38% o'r ymatebwyr nad oeddent bob amser yn dilyn cyfarwyddiadau a nododd 22% eu bod yn gwneud hynny weithiau neu byth (dewisodd 35% y dewis 'ddim yn berthnasol').

[16] C.8c Pa rai o'r gweithgareddau hyn, os o gwbl, ydych chi'n credu fydd yn eich helpu i osgoi gwenwyn bwyd?
[17] C.8d Wrth baratoi llysiau wedi'u rhewi, pa mor aml ydych chi'n dilyn y cyfarwyddiadau ar y deunydd pecynnu?
[18] C.8di Wrth baratoi ffrwythau wedi'u rhewi, pa mor aml ydych chi'n dilyn y cyfarwyddiadau ar y deunydd pecynnu?

4 Alergenau

Gofynnwyd i ymatebwyr am eu hymwybyddiaeth o reolau ynghylch alergenau, p'un a oes ganddynt unrhyw alergeddau neu anoddefiadau, a sut maent yn teimlo am ofyn am wybodaeth am alergenau wrth fwyta allan.

4.1 Ymwybyddiaeth o reolau

Pan ofynnwyd iddynt am reolau a rheoliadau, soniodd 8% o’r ymatebwyr yn ddigymell bod yn rhaid arddangos alergenau ar fwydlenni/labeli. Fodd bynnag, roedd llai nag 1% yn gallu nodi'r rheoliad mwyaf adnabyddus. Dywedodd 42% o'r ymatebwyr nad oeddent yn ymwybodol o unrhyw reolau, rheoliadau na deddfwriaeth ynghylch alergenau ac nid oedd 34% yn siŵr.

4.2 Nifer yr alergeddau ac anoddefiadau

Nododd cyfanswm o 12% o ymatebwyr fod ganddynt alergedd a/neu anoddefiad bwyd[19] (7% ag anoddefiad bwyd, 4% ag alergedd bwyd ac 1% gyda’r ddau), nododd 8% fod gan oedolyn arall ar eu haelwyd alergedd a/neu anoddefiad bwyd[20] a dywedodd 4% fod gan blentyn ar eu haelwyd alergedd a/neu anoddefiad bwyd[21].

Mae tueddiadau'n dangos bod nifer yr alergeddau wedi aros yn sefydlog heb fawr o newid rhwng cylchoedd.

4.3 Gofyn am wybodaeth am alergenau

O'i gymharu â chylchoedd blaenorol, bu gostyngiad yng Nghylch 19 yn nifer yr ymatebwyr a nododd eu bod yn teimlo'n hyderus wrth ofyn am wybodaeth am alergenau mewn amrywiaeth o sefydliadau bwyd. Mae hyn wedi gostwng dau bwynt

[19] C.9b_01 A oes gennych chi neu unrhyw un rydych chi'n mynd gyda nhw i fwyta allan neu'n prynu bwyd/diod ar eu cyfer yn rheolaidd, alergeddau neu anoddefiadau bwyd, yn seiliedig ar y diffiniadau isod ... Fi fy hun

[20] C.9b_02 A oes gennych chi neu unrhyw un rydych chi'n mynd gyda nhw i fwyta allan neu'n prynu bwyd/diod ar eu cyfer yn rheolaidd, alergeddau neu anoddefiadau bwyd, yn seiliedig ar y diffiniadau isod ... Oedolyn arall ar fy aelwyd

[21] C.9b_03 A oes gennych chi neu unrhyw un rydych chi'n mynd gyda nhw i fwyta allan neu'n prynu bwyd/diod ar eu cyfer yn rheolaidd, alergeddau neu anoddefiadau bwyd, yn seiliedig ar y diffiniadau isod ... Plentyn/plant ar fy aelwyd

canran yng Nghylch 19 ac yn agos at lefelau cynharach[22]. Nododd 79% o'r ymatebwyr eu bod yn teimlo'n hyderus[23] wrth ofyn am wybodaeth am alergenau mewn bwytai.

Tabl 4-1 Hyder wrth ofyn am wybodaeth am alergenau .

Hyder wrth ofyn am wybodaeth am alergenau	Cylch 15 (Tach 17)	Cylch 16 (Mai 18)	Cylch 17 (Tach 18)	Cylch 18 (Mai 19)	Cylch 19 (Tach 19)	Tueddiad
Mewn siop goffi	74%	75%	75%	79%	76%	
Mewn caffi	75%	75%	75%	79%	76%	
Mewn siop frechdanau	73%	73%	73%	77%	74%	
Mewn siop tecawê	70%	71%	70%	75%	71%	
Mewn bwyty	77%	78%	77%	81%	79%	

[22] C.9c_01-9_05 Gan feddwl yn benodol am fwyta allan a phrynu bwyd i'w fwyta, er enghraifft, o siop goffi, bwyty, caffi, siop frechdanau, siop tecawê ac ati, pa mor hyderus fyddech chi'n teimlo yn gofyn i aelod o staff am wybodaeth am y cynhwysion yn y bwydydd a werthir ganddynt, oherwydd pryder am alergeddau/anoddefiadau bwyd posib?

[23] Cyfeirio at gyfran net yr ymatebwyr a nododd eu bod yn teimlo naill ai 'yn eithaf hyderus' neu'n 'hyderus iawn'.

5 Agweddau Tuag At Yr Asb

Gofynnwyd ystod o gwestiynau i ymatebwyr am eu hymwybyddiaeth o'r Asiantaeth Safonau Bwyd, pa mor gyfarwydd oeddynt â hi a'u hagweddau tuag ati.

5.1 Pa mor ymwybodol a chyfarwydd yw ymatebwyr

Yn nghylch 19, nododd 78% o'r holl ymatebwyr eu bod yn ymwybodol o'r ASB [24]. Nododd 84% o ymatebwyr yng Ngogledd Iwerddon eu bod yn ymwybodol o'r ASB o'i gymharu ag 83% o'r rheiny yng Nghymru a 77% yn Lloegr.

Ffigwr 5-1 Ymwybyddiaeth o'r ASB



[24] C.4 Pa rai o'r canlynol, os o gwbl, ydych chi wedi clywed amdanynt?

Pan ofynnwyd i’r ymatebwyr pa mor gyfarwydd oeddynt â'r hyn y mae'r ASB yn ei wneud, nododd 67% eu bod yn gwybod rhywfaint neu lawer am yr hyn y mae'r ASB yn ei wneud[25] a nododd 33% eu bod wedi clywed yr enw, ond dim byd arall. Arhosodd y gyfran a oedd yn gwybod rhywfaint neu lawer am yr hyn y mae'r ASB yn ei wneud yn gymharol gyson ar draws y cylchoedd blaenorol.

Ffigur 5-2 Cyfarwydd â'r ASB[26]



Gofynnwyd i ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o'r ASB ba ddatganiad yr oeddent yn credu oedd yn disgrifio'r ASB orau[27]. Nododd 46% o’r ymatebwyr mai’r ffordd orau o ddisgrifio’r ASB oedd fel 'adran lywodraethol', 31% fel 'rheoleiddiwr annibynnol' a 10% fel 'corff llywodraethol hyd braich'. Mae cyfran yr ymatebwyr sy'n disgrifio'r ASB fel 'rheoleiddiwr annibynnol' wedi cynyddu pum pwynt canran ers Cylch 15.

Yn ogystal â llawer o gyfrifoldebau eraill, o ran labelu bwyd mae'r ASB yn gyfrifol am ddiogelwch bwyd a labelu alergedd yng Nghymru, yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon. Mae ganddi gyfrifoldeb hefyd am labelu bwyd ehangach yng Nghymru ac yng Ngogledd Iwerddon, gan gynnwys maeth yng Ngogledd Iwerddon yn unig. Pan ofynnwyd i’r ymatebwyr ba faterion, yn eu barn nhw, mae’r ASB yn gyfrifol amdanynt, nododd 90% mai un o gyfrifoldebau'r ASB yw sicrhau bod y bwyd rydych chi'n ei brynu yn ddiogel i'w fwyta. Yr ail ateb mwyaf poblogaidd oedd labeli dyddiad (63%)[28].

[25] C.4b Faint ydych chi'n ei wybod am yr ASB? Sylfaen: yr holl ymatebwyr sy’n ymwybodol o'r ASB (n = 1,606)
[26] Sylfaen: yr holl ymatebwyr sy’n ymwybodol o'r ASB (n = 1,606)
[27] C.4c Hyd eithaf eich gwybodaeth, pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'r ASB orau yn eich barn chi?
[28] C.5b A pha rai o'r materion hyn ydych chi'n meddwl y mae'r ASB yn gyfrifol amdanynt? Sylfaen: yr holl ymatebwyr sy’n ymwybodol o'r ASB (n = 1,606)

Tabl 5-1 Cyfanswm ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau'r ASB

Ymwybyddiaeth o gyfrifoldeb	Cylch 19 - Tachwedd 19
Sicrhau bod y bwyd rydych chi'n ei brynu yn ddiogel i'w fwyta	90%
Labeli dyddiad, fel labeli "ar ei orau cyn" a "defnyddio erbyn"	63%
Gwybodaeth am labelu maeth, fel labelu goleuadau traffig	61%
Labeli gwlad tarddiad, sy'n nodi o ble mae bwyd yn dod	56%
Hyrwyddo a galluogi bwyta'n iach a dilyn ffyrdd iach o fyw	43%
Sicrhau bod bwyd yn gynaliadwy	39%
Hyrwyddo diogelwch bwyd yn y cartref	37%

Mae ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau'r ASB wedi aros yn gymharol sefydlog ar draws y cylchoedd, gyda chynnydd bach yn yr ymatebwyr yn nodi labelu gwlad tarddiad fel cyfrifoldeb yr ASB (50% yng nghylch 18 wedi cynyddu i 56% yng nghylch 19). Mae Ffigur 5-3 yn dangos y pedwar prif gyfrifoldeb yr oedd ymatebwyr yn ymwybodol ohonynt.

Ffigur 5-3 Ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau'r ASB



5.2 Canfyddiadau ynghylch yr ASB

Gofynnwyd i ymatebwyr i ba raddau y maent yn cytuno ag amrywiaeth o ddatganiadau ynghylch yr ASB[29]. O'r rhai sy'n ymwybodol o'r ASB, cytunodd 70% o'r ymatebwyr[30] fod yr ASB yn gweithio ar eu rhan, a chytunodd 66% fod yr ASB yn mynd i'r afael â thwyll bwyd. Cytunodd 34% o'r ymatebwyr fod yr ASB yn arloesol, yn effeithlon ac yn gost-effeithiol.

Ffigur 5-4 Canfyddiadau o'r ASB



[29] C.4d I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol am yr ASB? Sylfaen: yr holl ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o'r ASB (n = 1606)

[30] Net 'cytuno'n gryf' a 'cytuno fymryn'

5.3 Ymddiried yn yr ASB

Yng nghylch 19, nododd 73% o'r ymatebwyr (a oedd yn ymwybodol o'r ASB) eu bod yn ymddiried yn[31] yr ASB i gyflawni ei swyddogaeth[32]. Bu newid sylweddol ers y cylch blaenorol gyda chynnydd o 7 pwynt canran.

Ffigur 5-5 Ymddiriedaeth yn yr ASB dros amser



Gofynnwyd i'r ymatebwyr hefyd nodi a oeddent, ac i ba raddau, yn cytuno ag amrywiaeth o ddatganiadau yn amlinellu lefel eu hymddiriedaeth yn yr ASB a'r system fwyd ehangach[33]. Dywedodd 68% o’r ymatebwyr eu bod yn ymddiried yn yr ASB i ddweud y gwir yn yr wybodaeth y maent yn ei darparu (75% ymhlith y rhai hynny a oedd yn ymwybodol o'r ASB). Cytunodd 65% o'r ymatebwyr fod y diwydiant bwyd yn cael ei reoleiddio'n deg a chytunodd 47% eu bod yn ymddiried bod y bobl sy'n cynhyrchu ac yn gwerthu bwyd yn gweithio er eu budd nhw (mae'r ddau fesur wedi cynyddu ers y cylch blaenorol o 3 phwynt canran yn y drefn honno).

[31] Net 'Rwy'n ymddiried llawer yn yr ASB' ac 'Rwy'n ymddiried yn yr ASB'
[32] C.6a I ba raddau ydych chi'n ymddiried neu ddim yn ymddiried yn yr ASB i gyflawni ei swyddogaeth? Hynny yw, ymddiried ynddi i sicrhau bod y bwyd yn cael ei werthu mewn siopau a bwytai yn ddiogel. Sylfaen: yr holl ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o'r ASB (n = 1606)
[33] C.6b I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol

Ffigur 5-6 Ymddiriedaeth yn yr ASB a'r system fwyd



Yng nghylch 18, cafodd cwestiynau yn ymwneud ag ymddiriedaeth a oedd wedi'u cynnwys gynt yn arolwg blaenllaw yr ASB, 'Bwyd a Chi'[34], eu symud i arolwg Tracio Agweddau'r Cyhoedd i arsylwi lefelau ymddiriedaeth yn fwy rheolaidd.

Gofynnwyd i ymatebwyr sgorio pa mor debygol yw hi y bod yr ASB yn gweithredu mewn ffordd benodol yn ôl saith datganiad, fel yr adroddir isod[35]. Defnyddiodd pob datganiad yr un raddfa 10 pwynt, o 'annhebygol iawn' i 'tebygol iawn'. Cytunodd 69% o'r ymatebwyr ei bod hi'n debygol iawn[36] y bydd yr ASB yn gweithredu i ddiogelu'r cyhoedd pe bai achos o wenwyn bwyd, a nododd 59% o'r ymatebwyr y byddai'n debygol iawn y byddai'r ASB yn blaenoriaethu'r cyhoedd.

[34] https://www.food.gov.uk/cy/taxonomy/term/272
[35] C01-07. Saith datganiad
[36] Caiff 'tebygol iawn' ei ddiffinio fel 7-10

Ffigur 5-7 Ymddiriedaeth a hyder yn yr ASB



Gan ddefnyddio'r datganiadau hyn, datblygwyd mesur cyfansawdd o ymddiriedaeth yn yr ASB fel rhan o ddadansoddiad cylch pump yr arolwg Bwyd a Chi. Cyfrifwyd y sgôr gyfansawdd gan ddefnyddio cymedr: gofynnwyd pob un o'r saith cwestiwn gan ddefnyddio graddfa 10 pwynt; felly, cyfanswm y sgôr yw'r sgôr gymedrig yn seiliedig ar nifer y cwestiynau a atebwyd gan bob ymatebwr. Roedd ymatebion pawb a atebodd bump, chwech neu saith cwestiwn wedi'u cynnwys yn y mesur cyfansawdd ac wedi cael sgôr gyfatebol. Cafodd cyfanswm o 1,842 o achosion eu cynnwys yn y mesur cyfansawdd. Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am y fethodoleg ym mhapur dadansoddi eilaidd Cylch Pump yr arolwg Bwyd a Chi: Ymddiriedaeth mewn Bwyd a System Fwyd y DU[37]. Sgôr gyfartalog y mesur cyfansawdd o ymddiriedaeth yn yr ASB oedd 7.0 allan o 10.

[37] https://www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/foodandyou_wave5_trust-paper_v8-final_0.pdf

6 Agweddau Tuag At Y System Fwyd

6.1 Dewisiadau bwyd

Gofynnwyd i'r ymatebwyr nodi i ba raddau yr oeddent yn cytuno neu'n anghytuno ag amrywiaeth o ddatganiadau am agweddau tuag at gynhyrchu, gwerthu a labelu bwyd[38]. Roedd llawer iawn o ymatebwyr wedi nodi eu bod yn cytuno ar gyfer pob datganiad, yn enwedig o ran cyfrifoldeb a grymuso. Ychwanegwyd datganiad newydd yng nghylch 18 i fesur lefelau pryder ynghylch effaith amgylcheddol dewisiadau bwyd; yng nghylch 19, cytunodd 68% o'r ymatebwyr fod hyn yn rhywbeth y maent yn poeni amdano. Hefyd, trwy’r arolwg gofynnwyd i ymatebwyr ystod o gwestiynau eraill am eu hagweddau tuag at ymddiriedaeth yn y system fwyd (gweler ffigur 6-1).

Cytunodd 86% o'r ymatebwyr mai eu cyfrifoldeb nhw yw gwneud y dewisiadau bwyd cywir iddyn nhw eu hunain a'u teuluoedd a nododd 76% o'r ymatebwyr eu bod yn ymddiried yn nilysrwydd cynhwysion, tarddiad neu ansawdd y bwyd maen nhw'n ei brynu neu ei fwyta.

[38] C33: Mae gennym ddiddordeb yn eich safbwyntiau ar sut mae bwyd yn cael ei gynhyrchu, ei werthu a'i labelu; yn y bôn popeth sy'n digwydd i fwyd ar y ffordd i'ch bwrdd. I ba raddau ydych chi’n cytuno neu’n anghytuno â’r datganiadau canlynol.

Ffigur 6-1 Agweddau tuag at gynhyrchu, gwerthu a labelu bwyd



6.2 Ymddiried mewn labeli bwyd

Ers cylch 15, gofynnwyd sawl cwestiwn am ymddiriedaeth mewn labeli bwyd. Yng nghylch 19, nododd 68% o'r ymatebwyr nad oeddent bob amser yn teimlo'n hyderus bod bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label neu'r fwydlen[39], gyda 32% o'r ymatebwyr bob amser yn teimlo'n hyderus.

Gofynnwyd i'r ymatebwyr a nododd nad ydynt bob amser yn teimlo'n hyderus fod bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label, amlinellu unrhyw resymau penodol am hyn[40]. Y materion a nodwyd amlaf oedd peidio â chredu bod yr wybodaeth am y cynhwysion ar labeli/bwydlenni yn gywir (11%), ddim yn gwybod neu ddim yn siŵr (6%) a'r sgandal cig ceffyl (6%).

Hefyd, gofynnwyd i'r ymatebwyr a nododd nad ydynt bob amser yn teimlo'n hyderus a oeddent erioed wedi gwneud unrhyw un o'r canlynol [41].

Tabl 6-1 Ymddygiadau yn ymwneud â diffyg hyder mewn labeli bwyd

Cam gweithredu	Cylch 19 - Tachwedd 19
Darllen labeli bwyd yn amlach	28%
Rhoi'r gorau i siopa am fwyd mewn lleoedd penodol	15%
Newid y ffordd rydych chi'n coginio bwyd	10%
Ceisio cael rhagor o wybodaeth am y mater	10%
Newid y ffordd rydych chi'n paratoi bwyd	9%
Darllen am y mater ond heb geisio gwybodaeth	6%
Arall	2%
Heb gymryd unrhyw gamau gweithredu	54%

[39] C.7a Yn gyffredinol, wrth brynu neu fwyta bwyd, pa mor aml ydych chi'n teimlo'n hyderus ei fod yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label?

[40] C.7b Fe wnaethoch chi nodi nad ydych chi bob amser yn hyderus fod bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label neu'r fwydlen. Pa faterion penodol oeddech chi'n meddwl amdanyn nhw, os o gwbl? Sylfaen: yr holl ymatebwyr nad ydynt bob amser yn hyderus (n = 1,401)

[41] C.7c. Dros y flwyddyn ddiwethaf, a ydych chi wedi cymryd un o'r camau canlynol oherwydd nad oeddech yn hyderus bod bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label neu'r fwydlen? Sylfaen: yr holl ymatebwyr nad ydynt bob amser yn hyderus (n = 1,401)

6.3 Ymddiriedaeth yn y system fwyd

Yn nghylch 18, cafodd cwestiynau yn ymwneud ag ymddiriedaeth yn y system fwyd a oedd wedi'u cynnwys gynt yn arolwg blaenllaw yr ASB, 'Bwyd a Chi'[42], eu symud i arolwg Tracio Agweddau'r Cyhoedd er mwyn arsylwi lefelau ymddiriedaeth yn y system fwyd yn fwy rheolaidd. Gofynnwyd i ymatebwyr sgorio pump datganiad, fel yr adroddir isod. Dywedodd 81% o'r ymatebwyr eu bod yn sicr[43] bod y bwydydd a brynwyd ganddynt ar gyfer eu haelwyd yn ddiogel i'w bwyta.

Ffigur 6-2 Ymddiriedaeth yn y system fwyd



[42] https://www.food.gov.uk/cy/taxonomy/term/272
[43] Net 'sicr iawn' ac 'eithaf sicr'

Yn yr un modd ag ymddiriedaeth yn yr ASB (Adran 5.3), datblygwyd mesur cyfansawdd ar gyfer ymddiriedaeth yn y system fwyd fel rhan o ddadansoddiad cylch pump yr arolwg Bwyd a Chi[44]. Cyfrifwyd y sgôr gan ddefnyddio cymedr: gofynnwyd pob un o'r pump cwestiwn gan ddefnyddio graddfa 5 pwynt; felly, cyfanswm y sgôr yw'r sgôr gymedrig yn seiliedig ar nifer y cwestiynau a atebwyd gan bob ymatebwr.

Roedd ymatebion pawb a atebodd bedwar neu bump cwestiwn wedi'u cynnwys yn y mesur cyfansawdd ac wedi cael sgôr gyfatebol. Cafodd cyfanswm o 2,040 o achosion eu cynnwys yn y mesur cyfansawdd.

Sgôr gyfartalog y mesur cyfansawdd o ymddiriedaeth yn y system fwyd oedd 3.7 allan o 5.

Trwy’r arolwg, gofynnwyd ystod o gwestiynau eraill i'r ymatebwyr hefyd am eu hagweddau tuag at y system fwyd a’u hymddiriedaeth ynddi, fel yr adroddir yn y siart isod:

Ffigur 6-3 Ymddiriedaeth yn y system fwyd



Pan ofynnwyd iddynt am eu hagweddau tuag at gynhyrchion cig y DU, nododd 75% o’r ymatebwyr eu bod yn hyderus iawn neu’n eithaf hyderus bod cynhyrchion cig y DU yn ddiogel[45].

[44] https://www.food.gov.uk/sites/default/files/media/document/foodandyou_wave5_trust-paper_v8-final_0.pdf
[45] C.33a Pa mor hyderus ydych chi bod cynhyrchion cig y DU yn ddiogel?

7 Galw Bwyd Yn Ôl

Yng nghylch 17, ychwanegwyd ystod o gwestiynau i ymchwilio i ymwybyddiaeth defnyddwyr o’r system galw bwyd yn ôl. Yng nghylch 19, nododd 20% o’r ymatebwyr eu bod wedi gwirio am rybuddion galw bwyd yn ôl o leiaf unwaith[46], a nododd 25% eu bod yn ymwybodol o rybudd galw bwyd yn ôl yn ystod y 12 mis diwethaf[47]. Bu cynnydd o wyth pwynt canran ers y cylch blaenorol.

O'r rhai a oedd yn ymwybodol o rybudd galw bwyd yn ôl yn ystod y 12 mis diwethaf, sylwodd 26% ar y rhybudd mewn siop, roedd 16% wedi ei glywed ar y teledu/radio a 27% trwy'r cyfryngau cymdeithasu[48]. Nododd 53% o'r ymatebwyr a oedd wedi gweld rhybudd galw bwyd yn ôl mewn siop eu bod wedi ei weld wrth y fynedfa/allanfa, ac yna wrth y til (31%)[49].

Dywedodd 35% o'r ymatebwyr a oedd wedi sylwi ar rybudd galw bwyd yn ôl fod cwmnïau bwyd wedi cyhoeddi'r rhybudd[50], a nododd 90% fod yr wybodaeth yn glir iawn/eithaf clir[51]. Mae hyn wedi gostwng o 94% yn y cylch blaenorol.

Nododd 67% o’r ymatebwyr na wnaethant weithredu ar ôl sylwi ar rybudd galw bwyd yn ôl, tra bod 17% wedi gwirio i weld a oedd y cynnyrch ganddynt, roedd 13% wedi rhannu’r wybodaeth ag eraill ac roedd 8% wedi osgoi prynu'r cynnyrch yn y dyfodol[52].

Dywedodd 97% o'r ymatebwyr nad ydynt wedi cofrestru ar hyn o bryd i gael gwybodaeth galw bwyd yn ôl[53], ond nododd 20% y byddent yn cofrestru i gael gwybodaeth galw bwyd yn ôl yn y dyfodol[54].

---

[46] C.34a Yn gyffredinol, pa mor aml ydych chi'n gwirio am rybuddion galw bwyd yn ôl?
[47] C.34b Ydych chi'n ymwybodol o unrhyw rybuddion galw bwyd yn ôl yn ystod y 12 mis diwethaf?
[48] C.35a Wrth ystyried y rhybudd galw bwyd yn ôl mwyaf diweddar rydych chi'n ymwybodol ohono, beth oedd ffynhonnell yr wybodaeth? Sylfaen: yr holl ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o rybudd galw bwyd yn ôl yn ystod y 12 mis diwethaf (n = 504)
[49] C.35d Fe wnaethoch chi sôn eich bod wedi gweld rhybudd galw bwyd yn ôl mewn siop. Ble welsoch chi ef? Sylfaen: yr holl ymatebwyr a oedd wedi gweld rhybudd galw bwyd yn ôl mewn siop (n = 126)
[50] C.35b Hyd eithaf eich gwybodaeth, pwy gyhoeddodd y rhybudd galw bwyd yn ôl? Sylfaen: yr holl ymatebwyr a oedd yn gallu cofio ffynhonnell y wybodaeth galw bwyd yn ôl (n = 459)
[51] C.35c Pa mor glir oedd yr wybodaeth am y rhybudd galw bwyd yn ôl? Sylfaen: yr holl ymatebwyr a oedd yn gallu cofio ffynhonnell yr wybodaeth galw bwyd yn ôl (n = 459)
[52] C.36a Eto, gan ystyried y rhybudd galw bwyd yn ôl mwyaf diweddar rydych chi'n ymwybodol ohono, pa rai o'r camau hyn wnaethoch chi eu cymryd? Sylfaen: yr holl ymatebwyr a oedd yn ymwybodol o unrhyw rybuddion galw bwyd yn ôl yn ystod y 12 mis diwethaf (n = 504)
[53] C.37 A ydych chi wedi cofrestru ar hyn o bryd i gael gwybodaeth galw bwyd yn ôl gan unrhyw sefydliad?
[54] C.39 A fyddech chi'n cofrestru i gael gwybodaeth galw bwyd yn ôl yn y dyfodol? Sylfaen: yr holl ymatebwyr nad ydynt wedi cofrestru ar hyn o bryd i gael gwybodaeth galw bwyd yn ôl (n = 2,067)

Atodiad A: Tabl o ffigurau a thablau

Ffigur 1-1 Cyfanswm lefel y pryder ar gyfer pob mater bwyd dros amser 7
Ffigur 1-2 Materion diogelwch bwyd sy'n peri pryder (dros amser) 9
Ffigur 1-3 Materion bwyd ehangach sy'n peri pryder (dros amser) 11
Ffigur 1-4 Pryder am ddiogelwch bwyd mewn busnesau bwyd yn y DU (dros amser)..... 12
Ffigur 2-1 Defnyddio sticeri hylendid 14
Ffigur 3-1 Ymwybyddiaeth o'r mathau o wenwyn bwyd..... 15
Tabl 4-1 Hyder wrth ofyn am wybodaeth am alergenau 19
Ffigwr5-1 Ymwybyddiaeth o'r ASB 20
Ffigur 5-2 Cyfarwydd â'r ASB 21
Ffigur 5-3 Ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau'r ASB 22
Ffigur 5-4 Canfyddiadau o'r ASB..... 23
Ffigur 5-5 Ymddiriedaeth yn yr ASB dros amser 24
Ffigur 5-6 Ymddiriedaeth yn yr ASB a'r system fwyd..... 25
Ffigur 5-7 Ymddiriedaeth a hyder yn yr ASB..... 26
Ffigur 6-1 Agweddau tuag at gynhyrchu, gwerthu a labelu bwyd..... 28
Ffigur 6-2 Ymddiriedaeth yn y system fwyd..... 30

Tabl 1-1 Materion diogelwch bwyd sy'n peri pryder (cyfanswm pryder) 8
Tabl 1-2 Materion bwyd ehangach sy'n peri pryder..... 10
Tabl 2-1 Ffyrdd o wybod am safonau hylendid bwyd..... 13
Tabl 3-1 Gweithgareddau canfyddedig i osgoi gwenwyn bwyd 17
Tabl 5-1 Cyfanswm ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau'r ASB..... 22
Tabl 6-1 Ymddygiadau yn ymwneud â diffyg hyder mewn labelu bwyd..... 29

Atodiad B: Methodoleg

Dyma Gylch 19 Arolwg Tracio Agweddau’r Cyhoedd ar ei newydd wedd, sydd wedi cael ei gynnal ers 2010. Cafodd gwaith maes y cylch hwn ei gynnal rhwng 4 a 29 Tachwedd 2019 gyda sampl gynrychiadol o 2,101 o oedolion wedi’u cyfweld yng Nghymru, yn Lloegr ac yng Ngogledd Iwerddon. Cynhaliwyd yr ymchwil trwy arolwg rheolaidd TNS Omnibus drwy gyfrwng cyfweliadau wyneb yn wyneb, gan ddefnyddio dull Cyfweld Personol â Chymorth Cyfrifiadur (CAPI), sy’n dewis ymatebwyr drwy ddull samplu lleoliad ar hap.

O Gylch 14 ymlaen, ni chynhaliwyd unrhyw waith ymchwil yn yr Alban, sydd ag Arolwg Tracio ar wahân. O ganlyniad, dim ond canfyddiadau ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon y mae'r adroddiad hwn yn eu cyflwyno. Er mwyn sicrhau bod cymariaethau rhwng y cylch cyfredol a’r cylchoedd blaenorol yn ddilys, mae ymatebion yr Alban wedi'u tynnu o'r cylchoedd blaenorol – gan sicrhau bod canfyddiadau o Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon yn cael eu cymharu â chanfyddiadau o'r un gwledydd. Mae hyn yn golygu y gall y ffigurau a gyflwynir yn yr adroddiad cyfredol fod yn wahanol i'r rhai a gyflwynwyd yn flaenorol.

Mae'r Omnibws yn defnyddio sampl Cwota Lleoliad ar Hap. Mae dyluniad y sampl yn cynnwys rhannu Prydain Fawr yn 600 o bwyntiau samplu, gan ddefnyddio ystadegau ardaloedd bach Cyfrifiad 2001 a Ffeil Cyfeiriadau Cod Post (PAF). Caiff y sampl ei ffurfio mewn dau gam: yn y cam cyntaf dewisir pwyntiau sampl (unedau Sampl Cynradd [PSU]) yn ôl tebygolrwydd sy’n gymesur â maint; yn yr ail gam, dewisir blociau o gyfeiriadau ar hap o fewn y PSU a samplwyd. Mae nifer y pwyntiau samplu a gyhoeddir yn amrywio rhwng 143 a 208 bob wythnos, yn dibynnu ar hyd yr holiadur. Caiff cyfweliadau eu cynnal gan gyfwelwyr proffesiynol sy'n gweithio'n gyfan gwbl i Kantar TNS. Cynhelir 10 – 15 cyfweliad ym mhob ardal, yn dibynnu ar hyd yr holiadur. Rhaid i bob cyfwelydd neilltuo 3 drws rhwng pob cyfweliad llwyddiannus. Mae'r dull samplu Cwota Lleoliad ar Hap yn golygu nad yw cyfraddau ymateb yn cael eu cyfrif ar gyfer yr arolwg. Fodd bynnag, pwysolir y sampl i adlewyrchu’r boblogaeth.

Hanes

Mae'r arolwg Tracio wedi'i gynnal er 2001. Mae amlder y gwaith maes ar gyfer yr arolwg Tracio wedi newid er 2001:

- *Ebrill 2001 – Rhagfyr 2001:* bob chwarter;
- *Hydref 2001 – Medi 2002:* bob mis;

- *Rhagfyr 2002 – Mawrth 2010:* bob chwarter;
- *Tachwedd 2010 – Tachwedd 2019 (yr adroddiad hwn):* dwywaith y flwyddyn.

Yng Nghylch 18 rhoddwyd hwb i faint y sampl ar gyfer Cymru a Gogledd Iwerddon i gynyddu cywirdeb a chadernid. Cafodd yr adroddiad tracio ei ailgynllunio er mwyn lleihau ei faint. Dim ond y prif ganfyddiadau a adroddwyd, a darperir dadansoddiad pwrpasol ar gais. Ychwanegwyd cwestiynau yn ymwneud ag ymddiriedaeth, a oedd wedi'u cynnwys gynt yn yr adroddiad Bwyd a Chi, at y cylch hwn o'r arolwg tracio.

Atodiad C: Holiadur Cylch 19

1a. Pa faterion bwyd, os o gwbl, ydych chi'n poeni amdanynt? Pa rai eraill? (Digymell)

1b. A pha rai o'r materion bwyd hyn ydych chi'n poeni amdanynt, os o gwbl? Dewiswch bob un sy'n berthnasol Pa rai eraill?

- Gwenwyn bwyd fel Salmonela ac *E. coli*
- Bwyd a addaswyd yn enetig (bwyd GM)
- Enseffalophathi Sbyngffurf buchol [BSE] ('clefyd gwartheg gwallgof')
- Y bwyd anifeiliaid a roddir i dda byw
- Y defnydd o blaladdwyr i dyfu bwyd
- Y defnydd o ychwanegion (fel cyffeithyddion a sylweddau lliwio) mewn cynhyrchion bwyd
- Hormonau\steroidau\gwrthfiotigau mewn bwyd
- Labeli dyddiad, fel labeli “ar ei orau cyn” a “defnyddio erbyn”
- Hylendid bwyd wrth fwyta allan
- Hylendid bwyd gartref
- Cemegion o’r amgylchedd, fel plwm, mewn bwyd
- Bwyd ddim yn cyd-fynd â’r hyn sydd ar y label
- Dim un o’r rhain

1c. A pha rai o'r materion bwyd HYN ydych chi'n poeni amdanynt, os o gwbl? Dewiswch bob un sy'n berthnasol Pa rai eraill?

- Faint o halen sydd mewn bwyd
- Faint o siwgr sydd mewn bwyd
- Faint o fraster sydd mewn bwyd
- Faint o fraster dirlawn sydd mewn bwyd
- Bwydydd wedi'u hanelu at blant gan gynnwys prydau ysgol
- Dim un o’r rhain

1d. Ac, yn olaf yn yr adran hon, pa rai o'r materion bwyd HYN ydych chi'n pryderu amdanynt, os o gwbl? Dewiswch bob un sy'n berthnasol. Pa rai eraill?

- Lles anifeiliaid
- Prisiau bwyd
- Gwastraff bwyd
- Milltiroedd bwyd (e.e. y pellter y mae bwyd yn teithio)
- Dim un o’r rhain

2a. I ba raddau ydych chi’n pryderu neu ddim yn pryderu am ddiogelwch POB darn o fwyd sy'n cael ei werthu ym mwytai, tafarndai, caffis a siopau tecawê yn y DU?

- Rwy'n pryderu llawer
- Rwy'n pryderu rhywfaint
- Nid wyf yn pryderu nac ychwaith ddim yn pryderu
- Nid wyf yn pryderu gormod
- Nid wyf yn pryderu o gwbl

2b. I ba raddau ydych chi’n pryderu neu ddim yn pryderu am ddiogelwch yr HOLL fwyd sy'n cael ei werthu yn siopau ac archfarchnadoedd y DU?

- Rwy'n pryderu llawer
- Rwy'n pryderu rhywfaint
- Nid wyf yn pryderu nac ychwaith ddim yn pryderu
- Nid wyf yn pryderu gormod
- Nid wyf yn pryderu o gwbl

3a. Pan fyddwch chi'n prynu bwyd mewn siopau neu archfarchnadoedd, neu'n bwyta mewn bwytai, caffis, tafarndai a siopau tecawê, a ydych chi'n tueddu i fod yn ymwybodol o safonau hylendid y lleoedd hyn?

- Ydw – bob tro
- Ydw – weithiau
- Nac ydw

3b. Sut ydych chi'n gwybod am safonau hylendid y lleoedd rydych chi'n prynu bwyd ohonynt neu'n bwyta allan ynddynt? Dewiswch bob un sy'n berthnasol. Sut arall?

- Ar lafar
- Enw da
- Golwg pobl sy'n gweithio yno
- Golwg cyffredinol y siop\bwyty\caffi\tafarn\siop tecawê
- Sticer/tystysgrif hylendid
- Gwefannau
- Arall (rhowch fanylion)

4. Pa un o'r canlynol, os o gwbl, ydych chi wedi clywed amdanynt? Dewiswch bob un sy'n berthnasol

- Yr Adran Iechyd (*dylid ond dangos y dewis hwn ar gyfer ymatebwyr o Loegr*)
- Yr Adran Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Diogelwch y Cyhoedd (DHSSPS) (*dylid ond dangos y dewis hwn ar gyfer ymatebwyr o Ogledd Iwerddon*)
- Asiantaeth Iechyd y Cyhoedd (PHA) (*dylid ond dangos y dewis hwn ar gyfer ymatebwyr o Ogledd Iwerddon*)
- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) (*dylid ond dangos y dewis hwn ar gyfer ymatebwyr o Gymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon*)
- Safefood (*dylid ond dangos y dewis hwn ar gyfer ymatebwyr o Ogledd Iwerddon*)
- Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) (*dylid ond dangos y dewis hwn ar gyfer ymatebwyr o Loegr*)
- Yr Adran Materion Gwledig (*dylid ond dangos y dewis hwn ar gyfer ymatebwyr o Gymru*)
- Yr Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig (DARD) (*dylid ond dangos y dewis hwn ar gyfer ymatebwyr o Ogledd Iwerddon*)
- Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch
- Sefydliad Iechyd y Byd (WHO)

4b. Faint ydych chi'n ei wybod am yr Asiantaeth Safonau Bwyd, a elwir hefyd yn ASB?

- Rwyf wedi clywed yr enw, ond dim byd arall
- Rwyf wedi clywed amdanyn nhw ac rwy'n gwybod rhywfaint o wybodaeth am yr hyn maen nhw'n ei wneud

- Rwyf wedi clywed amdanyn nhw ac rwy’n gwybod llawer am yr hyn maen nhw'n ei wneud

4c. Hyd eithaf eich gwybodaeth, pa un o'r canlynol sy'n disgrifio'r Asiantaeth Safonau Bwyd orau yn eich barn chi?

- Adran lywodraethol
- Rheoleiddiwr annibynnol
- Elusen
- Corff llywodraethol hyd braich
- Cwmni preifat
- Arall (nodwch)

5a. Ac a gaf i wirio, pa faterion ydych chi'n meddwl bod yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn gyfrifol amdanynt?

- Sicrhau bod y bwyd rydych chi'n ei brynu yn ddiogel i'w fwyta
- Hyrwyddo diogelwch bwyd yn y cartref
- Hyrwyddo a galluogi bwyta'n iach a dilyn ffyrdd iach o fyw
- Sicrhau bod bwyd yn gynaliadwy – megis lleihau allyriadau tŷ gwydr a lleihau gwastraff wrth gynhyrchu bwyd
- Gwybodaeth am labelu maeth, fel labelu goleuadau traffig
- Labeli dyddiad, fel labeli "ar ei orau cyn" a "defnyddio erbyn"
- Labeli gwlad tarddiad, sy'n nodi o ble mae bwyd yn dod
- Arall

5b. A pha un o'r materion hyn ydych chi'n meddwl y mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn gyfrifol amdanynt? Dewiswch bob un sy'n berthnasol

- Sicrhau bod y bwyd rydych chi'n ei brynu yn ddiogel i'w fwyta
- Hyrwyddo diogelwch bwyd yn y cartref
- Hyrwyddo a galluogi bwyta'n iach a dilyn ffyrdd iach o fyw
- Sicrhau bod bwyd yn gynaliadwy – megis lleihau allyriadau tŷ gwydr a lleihau gwastraff wrth gynhyrchu bwyd
- Gwybodaeth am labelu maeth, fel labelu goleuadau traffig
- Labeli dyddiad, fel labeli "ar ei orau cyn" a "defnyddio erbyn"
- Labeli gwlad tarddiad, sy'n nodi o ble mae bwyd yn dod
- Arall

4d. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno bod yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn cyflawni'r canlynol...

1)… Yn mynd i'r afael â thwyll bwyd, fel gwerthu bwyd nad yw'n cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label

2)… Yn gweithio ar fy rhan

3)… Yn dda am egluro diogelwch bwyd a'r wyddoniaeth y tu ôl iddo

4)… Yn agored ac yn onest

5)… Yn arloesol, yn effeithlon ac yn gost-effeithiol

- Cytuno'n gryf
- Cytuno ychydig
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno ychydig
- Anghytuno'n gryf

6a. I ba raddau ydych chi'n ymddiried yn yr Asiantaeth Safonau Bwyd neu ddim yn ymddiried ynddi i gyflawni ei swyddogaeth? Hynny yw, ymddiried ynddi i sicrhau bod y bwyd sy'n cael ei werthu mewn siopau a bwytai yn ddiogel, ac i ddarparu cyngor ar ddiogelwch bwyd yn y cartref.

- Rwy'n ymddiried yn fawr ynddi
- Rwy'n ymddiried ynddi
- Nid wyf yn ymddiried ynddi un ffordd neu'r llall
- Nid wyf yn ymddiried ynddi
- Nid wyf yn ymddiried ynddi o gwbl

6b. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol ...

1)… rwy'n ymddiried bod yr ASB yn dweud y gwir yn yr wybodaeth y mae'n ei darparu.

2) ...rwy'n ymddiried bod y diwydiant bwyd yn cael ei reoleiddio'n deg.

3)… rwy'n ymddiried bod y bobl sy'n cynhyrchu ac yn gwerthu bwyd o fewn y diwydiant bwyd yn gweithio er fy mudd gorau i yn y bôn.

- Cytuno'n gryf
- Cytuno ychydig
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno ychydig
- Anghytuno'n gryf

6c. 1) Pe byddech chi am roi gwybod i'r ASB am fater yn ymwneud â bwyd, pa mor debygol neu annhebygol yw hi y byddai'r broblem yn cael ei harchwilio yn eich barn chi?

2) Pe bai achos o wenwyn bwyd, pa mor debygol neu annhebygol yw hi y byddai'r ASB yn gweithredu i ddiogelu'r cyhoedd yn eich barn chi?

3) Pe bai tystiolaeth newydd am ddiogelwch bwyd yn dod i'r amlwg, pa mor debygol neu annhebygol yw hi y byddai'r ASB yn hysbysu'r cyhoedd yn eich barn chi?

4) Pe bai tystiolaeth newydd am ddiogelwch bwyd yn dod i'r amlwg, pa mor debygol neu annhebygol yw hi y byddai'r ASB yn ymateb cyn gynted â phosibl yn eich barn chi?

5) Pe bai tystiolaeth newydd am ddiogelwch bwyd yn dod i'r amlwg, pa mor debygol neu annhebygol yw hi y byddai'r ASB yn dweud y gwir amdani wrth y cyhoedd yn eich barn chi?

6) Ar y cyfan, pa mor debygol neu annhebygol yw hi bod yr ASB yn ddiduedd yn eich barn chi? Yr hyn rydym ni'n ei olygu yw bod yr ASB yn gweithredu'n annibynnol ar ffynonellau allanol?

7) Ar y cyfan, pa mor debygol neu annhebygol yw hi bod yr ASB yn rhoi'r cyhoedd yn gyntaf yn eich barn chi?

- 0 - Annhebygol iawn
- 1
- 2
- 3
- 4
- 5
- 6
- 7
- 8
- 9
- 10 - Tebygol iawn

7a. Ar y cyfan, wrth brynu neu fwyta bwyd, pa mor aml ydych chi'n teimlo'n hyderus ei fod yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label neu'r fwydlen?

- Bob amser
- Rhan fwyaf o'r amser
- Peth o'r amser
- Anaml
- Byth

7b. Gwnaethoch chi nodi nad ydych chi bob amser yn hyderus bod bwyd yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label neu'r fwydlen. Pa faterion penodol oeddech chi'n meddwl amdanyn nhw, os o gwbl? (Digymell)

7c. Dros y flwyddyn ddiwethaf, a ydych chi wedi cymryd un o’r camau canlynol oherwydd nad oeddech yn hyderus bod bwyd yn cyd-fynd â’r hyn sydd ar y label neu'r fwydlen?

- Wedi ceisio cael rhagor o wybodaeth am y mater
- Wedi darllen am y mater ond heb geisio gwybodaeth
- Wedi darllen labeli bwyd yn fwy manwl
- Wedi newid y ffordd rydych chi'n coginio bwyd
- Wedi newid y ffordd rydych chi'n paratoi bwyd
- Wedi rhoi’r gorau i siopa am fwyd mewn mannau penodol
- Arall (nodwch)
- Heb gymryd unrhyw gamau gweithredu

8a. A ydych chi'n coginio a/neu'n paratoi bwyd ar gyfer unrhyw un o'r canlynol? Dewiswch bob un sy'n berthnasol

- Fi fy hun
- Plant iau na 5 oed
- Plant 5-15 oed
- Oedolion 16-24 oed
- Oedolion 65 oed a hŷn
- Arall (nodwch)
- Nac ydw, nid wyf yn coginio nac yn paratoi bwyd o gwbl

8ai. Pa fathau o wenwyn bwyd, os o gwbl, ydych chi wedi clywed amdanynt?

- Bacillus Cereus
- Botwliaeth
- Campylobacter
- Clostridium Perfringes
- E-coli
- Listeria
- Norofeirws
- Salmonela
- Dim un o’r rhain

C.8b Yn y DU, o ba un o'r bwydydd canlynol ydych chi'n meddwl eich bod chi FWYAF TEBYGOL o gael gwenwyn bwyd?

- Grawnfwyd
- Wyau
- Cyw iâr neu dwrci amrwd
- Bwyd tecawê wedi'i ailgynhesu
- Pysgod cregyn
- Llysiau neu salad heb eu golchi
- Dŵr
- Iogwrt
- Cigoedd wedi'u coginio, a'u sleisio
- Pysgod mwg
- Caws meddal wedi'i aeddfedu â llwydni a chaws meddal
- Brechdanau wedi'u paratoi ymlaen llaw
- Salad wedi'i baratoi ymlaen llaw
- Pate

8BI. Yn y DU, o ba un o'r bwydydd canlynol ydych chi'n meddwl y gallwch chi gael gwenwyn bwyd?

- Ffrwythau wedi'u rhewi
- Llysiau wedi'u rhewi
- Llysiau mewn tin
- Pasta sych
- Ffrwythau mewn tin
- Bara
- Tatws
- Dim un o'r rhain

8c. Pa rai o'r gweithgareddau hyn, os o gwbl, ydych chi'n credu a fydd yn eich helpu chi i osgoi gwenwyn bwyd? Dewiswch bopeth rydych chi'n meddwl sy'n berthnasol

- Paratoi gwahanol fathau o fwyd ar wahanol arwynebau/byrddau torri
- Coginio bwyd yn drylwyr
- Storio bwyd ar 5 gradd celsius neu is
- Osgoi ail-gynhesu bwyd
- Peidio â golchi cyw iâr amrwd
- Golchi ffrwythau a llysiau ffres yn drylwyr
- Dilyn cyfarwyddiadau storio ar labeli bwyd

- Bwyta bwyd erbyn y dyddiad ‘defnyddio erbyn’
- Bwyta bwyd erbyn y dyddiad ‘ar ei orau cyn’
- Cynhesu bwyd dros ben nes ei fod yn stemio'n boeth cyn ei fwyta

8d. Wrth baratoi llysiau wedi'u rhewi, pa mor aml ydych chi'n dilyn cyfarwyddiadau ar y deunydd pecynnu?

- Bob amser
- Rhan fwyaf o'r amser
- Peth o'r amser
- Anaml
- Byth
- Ddim yn berthnasol

8DI. Wrth baratoi ffrwythau wedi'u rhewi, pa mor aml ydych chi'n dilyn cyfarwyddiadau ar y deunydd pecynnu?

- Bob amser
- Rhan fwyaf o'r amser
- Peth o'r amser
- Anaml
- Byth
- Ddim yn berthnasol

8E. A oes unrhyw un ar eich aelwyd yn yfed llaeth amrwd? O ran llaeth amrwd rwy'n cyfeirio at laeth heb ei basteureiddio. Dewiswch bob un sy'n berthnasol

- Oes – fi fy hun
- Oes – oedolyn/oedolion eraill ar yr aelwyd (hŷn na 18 oed)
- Oes – plentyn/plant 0-5 oed
- Oes – plentyn/plant rhwng 6 a 15 oed
- Oes – plentyn/plant hŷn nag 16 oed
- Oes – arall (rhowch fanylion)
- Dim un o’r uchod

9A. A ydych chi'n ymwybodol o'r rheolau ynghylch alergenau? Yr hyn rydym ni’n ei olygu gan reolau yw unrhyw reol, rheoliad neu ddeddfwriaeth gwybodaeth a gyflwynir sy'n berthnasol i'r pwnc hwn.

- Oes (nodwch y rheol(au) rydych chi'n ymwybodol ohonyn nhw)

- Nac ydw
- Ddim yn siŵr

9b. A oes gennych chi neu unrhyw un rydych chi'n bwyta allan gyda nhw neu'n prynu bwyd/diod ar eu cyfer yn rheolaidd, alergeddau neu anoddefiadau bwyd, yn seiliedig ar y diffiniadau isod ...

… Fi fy hun
… Oedolyn arall ar fy aelwyd
… Plentyn/plant ar fy aelwyd
… Plentyn/plant nad ydynt ar fy aelwyd e.e. os yw eich plant yn byw yn rhywle arall
… Oedolyn arall nad yw ar eich aelwyd e.e. os ydych chi'n gofalu am oedolyn sy'n byw yn rhywle arall, neu bartner nad yw'n byw gyda chi
... Cyfaill

- Anoddefiad bwyd (Mae pobl ag anoddefiad bwyd yn profi symptomau fel dolur rhydd a chrampiau stumog a achosir gan anawsterau wrth dreulio rhai sylweddau. Fodd bynnag, nid oes unrhyw adwaith alergaidd yn digwydd)

- Alergedd bwyd sydd wedi cael diagnosis meddygol gan feddyg (Alergedd bwyd yw pan fo system imiwnedd y corff yn adweithio'n anarferol i fwydydd penodol. Mae adweithiau alergaidd yn aml yn ysgafn, ond gallant fod yn ddifrifol iawn weithiau)

- Alergedd bwyd ac anoddefiad bwyd

- Dim un o'r rhain

9c. Gan feddwl yn benodol am fwyta allan a phrynu bwyd i'w fwyta, er enghraifft, o siop goffi, bwyty, caffi, siop frechdanau, siop tecawê ac ati, pa mor hyderus fyddech chi'n teimlo yn gofyn i aelod o staff am wybodaeth am y cynhwysion yn y bwydydd maen nhw'n eu gwerthu, oherwydd pryder ynghylch alergenau/anoddefiadau bwyd posib? ...

1)… Mewn siop goffi

2)… Mewn caffi

3)… Mewn siop frechdanau

4)… Mewn siop tecawê

5) ... Mewn bwyty

- Ddim yn hyderus o gwbl
- Ddim yn hyderus iawn
- Ddim yn hyderus un ffordd neu'r llall
- Ychydig yn hyderus
- Hyderus iawn

10. Mae gennym ddiddordeb yn eich barn ar sut mae bwyd yn cael ei gynhyrchu, ei werthu a'i labelu; yn y bôn popeth sy'n digwydd i fwyd ar y ffordd i'ch bwrdd. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno â'r datganiadau canlynol....

1)… Mae gen i ddigon o wybodaeth am yr hyn sydd mewn bwyd i mi allu gwneud fy newisiadau bwyd

2)… Mae gen i ddigon o wybodaeth am ble mae fy mwyd yn dod i mi allu gwneud fy newisiadau bwyd

3)… Mae'r bobl sy'n cynhyrchu ac yn cyflenwi bwyd yn sicrhau ei fod yn ddiogel, yn onest ac wedi'i gymeradwyo'n foesegol

4)… Fy nghyfrifoldeb i yw sicrhau fy mod yn gwneud y dewisiadau bwyd iawn ar fy nghyfer i a fy nheulu

5)… Rwy'n teimlo bod gen i fynediad at ddeiet iach fforddiadwy

6) ...Rwy'n teimlo y bydd gen i fynediad at ddeiet iach fforddiadwy yn y dyfodol

7)… Rwy'n ymwybodol o effaith ehangach y dewisiadau bwyd rwy'n eu gwneud

8)… Rwy'n teimlo fy mod wedi fy ngrymuso i wneud fy mhenderfyniadau fy hun ynghylch yr hyn rwy'n ei fwyta a pham rwy'n ei fwyta

9)… Rwy'n hyderus bod y bwyd rwy'n ei brynu neu'n ei fwyta yn cyd-fynd â'r hyn sydd ar y label a'i fod wedi'i labelu'n gywir

10)… Mae'r awdurdodau i bob pwrpas yn atal ac yn canfod twyll bwyd (Yr hyn rydym ni'n olygu yw unrhyw gamddisgrifiad anonest o gynhyrchion, neu werthu bwyd anaddas neu niweidiol)

11) Rwy'n ymddiried yn nilysrwydd cynhwysion, tarddiad neu ansawdd y bwyd rwy'n ei brynu neu'n ei fwyta.

12) Rwy'n pryderu am effaith amgylcheddol fy newisiadau bwyd

- Cytuno'n gryf
- Cytuno ychydig
- Ddim yn cytuno nac yn anghytuno
- Anghytuno ychydig
- Anghytuno'n gryf

11.1) Pe byddech chi'n prynu bwyd a nwyddau yn <?> pa mor sicr neu ansicr fyddech chi ... o darddiad y bwyd?

2) Pe byddech chi'n prynu bwyd a nwyddau yn <?> pa mor sicr neu ansicr fyddech chi .... bod y bwyd sy'n dod o <?> wedi'i baratoi i'r safonau ansawdd uchaf?

3) Pe byddech chi'n prynu bwyd a nwyddau yn <?>, pa mor sicr neu ansicr fyddech chi…

4) … fod y bwyd sy'n dod o dramor wedi'i baratoi i'r safonau ansawdd uchaf?

5) Pe byddech chi'n prynu bwyd a nwyddau yn <?>, pa mor sicr neu ansicr fyddech chi…

6) … fod yr holl ganllawiau wedi'u dilyn yn iawn ar bob cam wrth ddod â bwyd o'r fferm i'ch tŷ?

7) Pe byddech chi'n prynu bwyd a nwyddau yn <?>, pa mor sicr neu ansicr fyddech chi…

8) … fod bwydydd a brynir ar gyfer eich aelwyd yn ddiogel i'w bwyta?

- Yn sicr iawn
- Yn eithaf sicr
- Ddim yn sicr na'n ansicr
- Eithaf ansicr
- Ansicr iawn

12a. Pa mor hyderus ydych chi bod cynhyrchion cig y DU yn ddiogel?

- Hyderus iawn
- Ychydig yn hyderus
- Ddim yn hyderus un ffordd neu'r llall
- Ddim yn hyderus iawn
- Ddim yn hyderus o gwbl

12b. A pha mor hyderus ydych chi bod cynhyrchion cig y DU yn ddilys?

- Hyderus iawn
- Ychydig yn hyderus
- Ddim yn hyderus un ffordd neu'r llall
- Ddim yn hyderus iawn
- Ddim yn hyderus o gwbl

13a. Ar y cyfan, pa mor aml ydych chi'n gwirio am rybuddion galw bwyd yn ôl?

- O leiaf unwaith yr wythnos
- 1-2 waith yr wythnos
- Llai nag unwaith y mis
- Nid wyf yn gwirio am rybuddion galw bwyd yn ôl

13b. A ydych chi'n ymwybodol o unrhyw rybuddion galw bwyd yn ôl yn ystod y 12 mis diwethaf?

- Ydw
- Nac ydw

14a. Wrth feddwl am y rhybudd galw bwyd yn ôl mwyaf diweddar yr ydych chi'n ymwybodol ohono, beth oedd ffynhonnell yr wybodaeth?

- Hysbysiad(au)\rhybudd(ion) yn y siop
- Teledu\radio
- Papur(au) newydd
- Appiau newyddion neu newyddion ar-lein
- Cyfryngau cymdeithasu – Twitter / Facebook
- Negeseuon testun
- E-bost/e-byst
- Gwefan(nau) (heblaw am wefannau newyddion)
- Ar lafar
- Arall (nodwch)
- Ddim yn gwybod

14b. Hyd eithaf eich gwybodaeth, pwy gyhoeddodd y rhybudd galw bwyd yn ôl?

- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
- Sefydliad(au) llywodraethol neu reoliadol
- Grwpiau defnyddwyr (e.e. Which?, Allergy UK, Ymgyrch Anaffylacsis, Celiac UK)
- Cwmnïau bwyd (e.e. Nestlé, Mars, Cadbury, Tesco, Sainsbury's, Lidl ac ati.)
- Sefydliad(au) newyddion / cyfryngau
- Arall (nodwch)
- Ddim yn gwybod

14c. Pa mor glir oedd yr wybodaeth am y rhybudd galw bwyd yn ôl?

- Clir iawn
- Eithaf clir
- Ddim yn glir iawn
- Ddim yn glir o gwbl

14d. Gwnaethoch chi sôn eich bod wedi gweld rhybudd galw bwyd yn ôl mewn siop. Ble welsoch chi ef?

- Wrth fynedfa / allanfa’r siop
- Wrth y til
- Yn yr ardal gwasanaethau cwsmeriaid
- Ar yr eil fwyd
- Arall (nodwch)

17a. Eto, gan feddwl am y rhybudd galw bwyd yn ôl mwyaf diweddar rydych chi'n ymwybodol ohono, pa rai o'r camau hyn wnaethoch chi eu cymryd?

- Heb gymryd unrhyw gamau gweithredu
- Rhannu’r wybodaeth ag eraill
- Gwirio i weld a oedd gen i’r cynnyrch
- Mynd yn ôl i'r siop i ddychwelyd y cynnyrch / cael ad-daliad
- Dod o hyd i ragor o wybodaeth am y rhybudd galw bwyd yn ôl
- Taflu’r cynnyrch i ffwrdd
- Gwnes i, neu rywun arall, fwyta'r cynnyrch
- Osgoi prynu'r cynnyrch yn y dyfodol
- Arall (nodwch)

17b. A gafodd y cynnyrch ei fwyta cyn neu ar ôl i chi ddod yn ymwybodol o'r rhybudd galw bwyd yn ôl?

- Cyn dod yn ymwybodol
- Ar ôl dod yn ymwybodol gan nad oedd y rhybudd yn berthnasol
- Ar ôl dod yn ymwybodol gan fod y risg yn isel
- Arall (nodwch)

18. A ydych chi wedi cofrestru ar hyn o bryd i gael gwybodaeth galw bwyd yn ôl gan unrhyw sefydliad?

- Ydw
- Nac ydw

19. Pa sefydliadau ydych chi wedi ymuno â nhw, i gael gwybodaeth am rybuddion galw bwyd yn ôl?

- Yr Asiantaeth Safonau Bwyd
- Sefydliad(au) llywodraethol neu reoliadol
- Grwpiau defnyddwyr (e.e. Which?, Allergy UK, Ymgyrch Anaffylacsis, Celiac UK)
- Cwmnïau bwyd (e.e. Nestlé, Mars, Cadbury, Tesco, Sainsbury's, Lidl ac ati.)
- Sefydliad(au) newyddion / cyfryngau
- Arall (nodwch)
- Ddim yn gwybod

20. A fyddech chi'n cofrestru i gael gwybodaeth galw bwyd yn ôl yn y dyfodol?

- Byddwn
- Na fyddwn